Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 16.01.23 |
| **Pwnc / Subject:** | **Galw am ragor o dystiolaeth ar oblygiadau data y Cyfrifiad i'r fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi'r Ddarpariaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg** |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil 2022 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion pob oed, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Pa heriau y mae'r gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn eu hachosi i ddarpariaeth awdurdodau lleol o ran y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg?**

Mae darparu addysg nas gynhelir, ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg, a chanolfannau trochi iaith sy'n hygyrch yn lleol i ddysgwyr o fannau cychwynnol amrywiol ymhob sector yn holl bwysig wrth ystyried tegwch ac ecwiti.

Mae cydweithio rhwng awdurdodau lleol yn brin yn gyffredinol, er enghraifft wrth sicrhau darpariaeth addysg anghenion dysgu ychwanegol cyson trwy gyfrwng y Gymraeg, ac wrth ehangu a chyd-lynu cyrsiau cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ôl-16. Mae sicrhau cefnogaeth i bobl ifanc ddatblygu eu medrau Cymraeg yn gynyddol hyderus wrth iddynt aeddfedu'n oedolion yn rhan annatod o'r her.

Mae darparu gwasanaeth cefnogi addysg i ddarparwyr ynglŷn â'r Gymraeg a gan swyddogion sy'n hyderus i gyfathrebu'n y Gymraeg am feysydd dysgu a phrofiad a phynciau eraill gan gonsortia rhanbarthol neu awdurdodau, yn amrywio ledled Cymru.

**Pa heriau sydd o'n blaenau wrth gynllunio a datblygu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yng ngoleuni data y Cyfrifiad, ac yn fwy penodol, yr her o sicrhau bod disgyblion yn y sector cyfrwng Saesneg yn rhugl wrth iddynt adael yr ysgol?**

Mewn arolygiadau craidd, mae cynnydd yn y nifer o argymhellion mae arolygwyr yn eu rhoi mewn perthynas â'r Gymraeg.

Yn gyffredinol, mae methodoleg a dulliau addysgu a dysgu ymarferwyr fel dulliau trochi cynnar ac hwyr am y Gymraeg yn amwys, yn enwedig wrth ystyried cynnydd disgyblion yn y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Nid yw'r arlwy dysgu proffesiynol yn ddigon cynhwysfawr a chydlynus er mwyn diwallu anghenion ymarferwyr sydd â lefelau hyfedredd gwahanol wrth addysgu'r Gymraeg.

Mae'r Canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn darparu cefnogaeth i ysgolion drosglwyddo o un categori ieithyddol i'r llall. Mewn mwyafrif o awdurdodau, nid yw'r cynlluniau yn cyfeirio at symud ysgolion ar hyd y continwwm ieithyddol. Yn ogystal, yn gyffredinol, mae her yn wynebu awdurdodau wrth iddynt ddarparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn ddigymell mewn sefyllfaoedd y tu allan i oriau addysg ffurfiol.

Mae'n her i awdurdodau lleol i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion sy'n derbyn eu haddysg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg wrth iddynt barhau gyda'u haddysg ôl-16 er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth di-dor wrth gefnogi dysgwyr i ddatblygu eu medrau Cymraeg ymhellach fel sylfaen iddynt ddefnyddio'r iaith yn gynyddol hyderus a hyfedr yn y gweithle ac fel rhan o'u bywydau bob dydd.

Mae Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg yn amlinellu'r her wrth ystyried y nifer fechan o arweinwyr ac ymarferwyr sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ymhob sector. Mae hyn yn bryder wrth ystyried lefel hyfedredd ymarferwyr sy'n arbenigwyr pwnc yn y sector uwchradd wrth iddynt addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu addysg yn astudiaeth achos sy'n deillio o arolygiad Cymraeg i Oedolion Ceredigion, Powys a Sir Gâr. Mae'n amlinellu arfer da wrth i swyddogion y darparwr gynllunio a chyflwyno cyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr i ymarferwyr ysgolion.

**Pa ystyriaethau ariannu a allai fod yn angenrheidiol yn y dyfodol i gefnogi datblygiad y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn llawn, o ystyried y gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg?**

Mae goblygiadau ariannu'n dyngedfennol bwysig i'w hystyried er mwyn cefnogi datblygiad nodau'r CSGA, er enghraifft wrth ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol i ymarferwyr ac wrth fireinio'r polisi trafnidiaeth yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).

Yn ogystal, mae'r her gyllidol yn berthnasol i'w hystyried wrth ddenu a chadw ymarferwyr sy'n arbenigwyr y Gymraeg tra'n datblygu darpariaeth trochi ar gyfer hwyrddyfodiaid wrth iddynt gael mynediad at addysg Gymraeg yn hwyrach yn eu gyrfa ysgol.